CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 27ain MEHEFIN 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mr Einion Parry Williams, Mr Ian Owen, Mr W Raymond Evans a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

YMDDIHEURIAD:
Dim ymddiheuriad.

1 CROESO, DIOLCHIADAU & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd gan nodi fod pob UN aelod a ddychwelodd y papurau etholiad yn bresennol.

1.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol** – nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb.

2 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

2.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 28ain Ebrill 2017 yn gywir. (EPW/LJ).

3 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

3.1 **Cais Chwarel Bwlch Gwyn** – nodwyd fod Pwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir wedi caniatau y cais ond heb eto wedi anfon y penderfyniad gyda amodau y cais.

3.2 Nodwyd nad oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn gwahoddiad I fynychu'r agoriad swyddogol y Gors Ddygfa a Llwybr ymwelwyr.

3.3 **Llinellau Gwyn Cyffordd Lon Groes** – wedi datrys.

3.4 **Gweinyddu & Rheoli Risg –** Llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth yr HSBC yn dweud ei bod yn tynnu'n nol ar ei gwasanaeth o cadw eitemau yn ddiogel.
Penderfyniad: Y Clerc i drefnu gyda'r Banc erbyn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd fod y Bocs perthnasol yn nhwylo'r Clerc ac ei fod yn hapus cadw mewn lle ddiogel.
Cytunwyd yr aelodau gyda'r trefniant yma.

4 CYFETHOL AELODAU NEWYDD.

4.1 Yn dilyn mai dim ond PUMP ymgeisydd, roedd yn rhaid gwneud trefniadau llenwi'r seti gwag.

Arwyddo.....

4.2 Yn dilyn cytundeb y Cadeirydd, roedd y Clerc eisoes wedi gwneud trefniadau o ddilyn y broses o hysbysebu o gyfethol o dan Adran 116 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 trwy y wefan a'r wasg gyda dyddiad cau: 16 Mehefin 2017.

4.3 Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn WYTH enw ac fe ofynwyd iddo am yr enwau.

4.4 Nodwyd fod Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Mike Jones, Mr J Egryn Lewis, Mrs Ca rol McGregor, Mr John Pritchard, Mrs Rhian Roberts a Mr Endaf Thomas wedi dangos diddordeb ac fe cynnigwyd a derbyniwyd fod yr enwau wedi ei dderbyn un unol a rheolau cyfethol ac mewn trefn (BM/EPW).

4.5 Fe aeth yr aelodau ati i bleidleisio am CHWECH o'r WYTH o'r enwau fel y ganlyn: **Mr Derek Hughes (4 pleidlais), Mr Cynrig Jones (5 pleidlais), Mr Mike Jones (4 pleidlais), Mr J Egryn Lewis (0 pleidlais), Mrs Carol McGregor (5 pleidlais), Mr John Pritchard (5 pleidlais), Mrs Rhian Roberts (3 pleidlais) a Mr Endaf Thomas (2 pleidlais)**

4.6 Felly, cadarnhawyd fod Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Mike Jones, Mrs Carol McGregor, Mr John Pritchard a Mrs Rhian Roberts wedi eu cyfethol fel Cynghorydd newydd ar y Cyngor.

4.7 Yn y cyfamser, arwyddwyd pob aelod y datganiad o dderbyn y swydd fel Cynghorydd ac ymrwymo ac i barchu'r côd ymddygiad.

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 **Arwyddion y Caeau Chwarae** – angen sicrhau fod geiriau yr arwyddion yn gywir cyn symud ymlaen. **Cytunwyd i'r Clerc drefnu hyn gyda'r cwmni 'The Sign Factory'.**

5.2 **Cae Peldroed Lon Groes & Prydles gyda CPD Gaerwen** – roedd y Clerc eisoes wedi rhannu llythyr y Cyngor Sir yn ymateb gyda sefyllfa y brydles a'r ffaith fod y Clwb Peldroed eisoes wedi dymchwel a codi cabanau newydd ar y safle yn groes i'r amodau. Roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Clwb ac fe rhannwyd y llythyr gyda'r aelodau ac fe cymeradwyd camau gweithredu y Clerc yn y fater. Nodwyd fod y Clwb wedi ymddiheuro am y digwyddiad ac wedi talu rhent y Cae Peldroed am 2016-2017 gyda addewid y bydd gwelliant mewn cyfathrebiad. Cafwyd trafodaeth eithaf cryno yn dilyn yr holl gwybodaeth ac i nodi popeth ar ffeil gyda'r pwysleis fod y Cyngor Cymuned yn barod i helpu'r Clwb ar unrhyw achlysur ond fod rhaid iddynt cydnabod a parchu amodau y prydles.

5.3 **Manion Atgyweirio yn cynnwys y Wal – Cae Chwarae, Gaerwen** – oherwydd pwysigrwydd a prinder mewn amser, nodwyd fod Cyng Ian Owen wedi cyfarfod gyda Cwmni Mri William Evans yn y Cae Chwarae er mwyn trefnu dyfnbris o'r manion gwaith cynnal a chadwsydd angen ei wneud. Derbyniwyd dyfnbris £854.00 + TAW ac roedd y Clerc eisoes wedi cadarnhau / caniatau i'r gwaith yma fynd yn ei flaen. Cymeradwyd yr aelodau y penderfyniad yma.

5.4 **Gwaith Cynnal a Chadw – Gofeb, Gardd Mileniwm & Cae Chwarae Gaerwen Uchaf** – roedd Cyng Ian Owen wedi darparu rhestr o waith cynnal a chadw sydd angen i'r tri safle – **Penderfynwyd y dylai'r Clerc anfon llythyrau allan i'r rhestr y contractwyr yn gofyn iddynt am ddyfnbris cyn penodi**. Diolchwyd I Cyng Ian Owen am ei waith yn y mater yma.

Arwyddo..... Tudalen 2.

5.5 **Lleoliad yr Hysbysfwrdd** – angen trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

5.6 **Biniau Sgwar Cae Mawr / Gaerwen Uchaf** – angen trafod yn y cyfarfod nesaf.

5.7 **Tyrchod Daear** – nodwyd fod hyn wedi ei ddatrys.

5.8 **Chwyn Laddwr** – roedd Cyng Ian Owen am ofyn I Mr Dafydd Hughes ymgymeryd a'r gwaith.

5.9 **Torri Cloddiau – Cae Mawr** – roedd Cyng Ian Owen am ofyn I Mr O G Jones ymgymeryd a'r gwaith.

5.10 **Cloddiau Gaerwen Uchaf** – roedd Cyng Ian Owen am drefnu pris cyn symud ymlaen.

5.11 **Clawdd Cae Peldroed** – roedd Cyng Ian Owen am ofyn i Mr O G Jones ymgymeryd a'r gwaith.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 **Llwybr yr Ynys –** nodwyd fod angen torri brigau ar hyd y llwybr – roedd Cyng Ian Owen am ofyn i Mr O G Jones am ymgymeryd y gwaith.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 **Problemau Traffig ar hyd darn Lon Groes** – nodwyd fod cerbydau trwm ac uchel yn trafeilio ar hyd y darn o'r Gofeb i'r Cae Peldroed ac gan fod hyn yn cynnwys yr Ysgol (Llwybrau Diogelach I Ysgolion) wrth iddynt ddefnyddio Lon Graig – **Penderfyniad – dwyn sylw pryderon y Cyngor i Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.**

7.2 **Arwydd Cyflymdra Lon Pentre Berw i Langaffo** – dangoswyd pryder gor-yrru ar hyd y Lon. **Penderfyniad – gofyn i'r Cyngor Sir ystyried symud arwydd 40mya yn agosach at Pentre Berw.**

7.3 **Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes** – nodwyd pryderon fod cerbydau yn parcio ger y safle ac yn atal y cyhoedd rhag defnyddio'r Blwch Post – **penderfyniad – anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd yn dwyn sylw atynt a gofyn iddynt anfon gorchymyn i berchnogion y cerbydau dan sylw.**

8. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Llawn (Diwygiedig) - Creu Mynedfa Newydd Cerbydau & Creu Trac Mynediad. **LLEOLIAD - Tros y Marian, Lon Groes, Gaerwen (Rhif Cais - 33C315). Penderfyniad: DIM SYLWADAU.**

9. MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

9.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Mai 2017 yn cynnwys cysoniad a datganiad y banc.

Arwyddo..... Tudalen 3.

9.2 **Taliadau Mis Mehefin 2017.**

Rhif Siec.	**Taler**		**Disgrifiad**	**Swm**
201241 -	Mr O G Jones	-	Torri Llwybrau	£852.00
201242 -	Mr Dafydd Hughes	-	Torri Caeau Chwarae	£485.00
201243 -	Gwynedd Office Supplies	-	Nwyddau	£176.40
201244 -	NWN Media Limited	-	Hysbyseb Cyfethol	£340.80
201245 -	Zurich Municipal	-	Yswiriant Blynyddol	£625.95
201246 -	Mr Dafydd Hughes	-	Torri Caeau Chwarae	£350.00
201247 -	Evans Bros	-	Cloeon	£29.60
201248 -	Cyng Ian Owen	-	Costau Trafeilio Cyfarfodydd	£31.34

9.3 **Derbyn & Cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor – 2016-2017**.

9.3.1 Yn dilyn eglurhad cryno gan y Clerc, derbyniwyd, arwyddwyd ac fe cymeradwyd y cyfrifon blynyddol yn unfrydol gyda diolch.

9.3.2 Cadarnhawyd, cymeradwyd ac arwyddodd y Cadeirydd fod y datganiadau cyfrifyddu gyda'r Datganiad Llywodraethu yn gywir yn unol a rheolau ar rhan yr aelodau a oedd yn bresennol.

9.4 Gweinyddu & Rheoli Risg.

9.4.1 Dywedodd y Clerc y bydd rhaid i'r Cyngor ail-adolygu eu Gorchymyn Statudol yn dilyn sawl newidiadau sydd yn effeithio Cynghorau Cymunedol **– rhoddwyd aelodau y caniatad iddo darparu y ddogfen ar gyfer cyfarfod Mis Medi.**

9.4.2 Dywedodd y Clerc y bydd rhaid hefyd ail-adolygu Rheolau Cyllidol yn unol a rhesymau amlinellwyd yng nghofnod 9.4.1 **– eto rhoddwyd aelodau y caniatad iddo darparu'r ddogfen ar gyfer cyfarfod Mis Medi.**

10. ADRODDIADAU.

10.1 **Ymgynghoriad Wylfa Newydd (PAC3)** – dyddiad cau ar gyfer ymatebion – **22 Mehefin 2017**.

10.2 **Ysgol Esceifiog –** nodwyd fod uned diffribiliwr bellach wedi ei leoli yn yr Ysgol ac y buasai hyfforddiant defnyddio'r peiriant ar gael i pawb yn y pentref.

10.3 **Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch i gyn aelodau y Cyngor am ei gwasaneth.**

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 25ain GORFFENNAF 2017.

11.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:45yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.